

## Rhaglen TAR: Bwletin Ymchwil

### Rhifyn 7: Hydref 2023

Croeso i fwletin ymchwil y Rhaglen TAR. Os ydych chi / eich lleoliad yn ymgymryd ag unrhyw ymchwil/ymholiadau, byddem yn croesawu'r cyfle i rannu hyn gyda'r Bartneriaeth. Os hoffech wybod mwy am unrhyw un o'r eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y bwletin hyn, cysylltwch ag Alison Glover ([alison.glover@open.ac.uk](mailto:alison.glover@open.ac.uk)).

#### Yn y rhifyn hwn .....



**Beth sydd ei angen ar blant i ffynnu:** Astudiaeth yn archwilio effeithiau'r cyfnodau clo ar iechyd meddwl a lles plant oed cynradd.

laith  
Gymraeg

**Caffael geirfa:** Dull newydd o addysgu Cymraeg i ddysgwyr Blwyddyn 5 gafodd ei archwilio gyda dau grŵp arbrofol ac un grŵp rheoli.



**Fframwaith ymgysylltu â theuluoedd:** Caiff fframwaith newydd ei awgrymu i fod yn rhan o'r gwaith i wella ymgysylltiad rhieni â dysgu.



**Cydnabod a thaclo stereoteipiau rhywedd:** Mae ymarferwyr yn myfyrio ar sut maent yn cynrychioli rhywedd a dylanwad hyn ar eu haddysgeg.



**Camau cynnar gweithredu Cwricwlwm i Gymru:** Gweithiodd aelodau'r tîm TAR gydag Ymchwil Arad i archwilio profiadau cynnar ysgolion o weithredu Cwricwlwm i Gymru.



#### Beth sydd ei angen ar blant i ffynnu

*'Os ydyn nhw'n hapus, maen nhw'n mynd i fod yn ddysgwyr da, os ydyn nhw'n anhapus, dydyn nhw ddim yn mynd i ddysgu.'*

Archwiliodd yr astudiaeth hon effeithiau pandemig COVID-19 ar iechyd meddwl a lles plant oed ysgol gynradd yn y DU. Cafodd naw o athrawon eu cyfweld, a chwblhaodd 136 o rieni arolwg ar-lein. Amlygodd y canlyniadau amrywiaeth o brofiadau plant ac effeithiau niweidiol y cyfnodau clo ar ddatblygiad cymdeithasol. Tynnodd llawer o gyfranogwyr sylw at fanteision addysg gyda llai o bwysau iddo, ac ystyriwyd fod hyn yn medru cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad, lles a chynnydd academaidd. Mae'r papur yn dadlau bod blaenoriaethu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant yn allweddol fel modd o gefnogi plant i ffynnu yn y cyfnod adfer. Mae hyn hefyd yn rhagofyniad ar gyfer dysgu effeithiol yn gyffredinol. Er y gall ymyriadau unigol fel cwnsela fod yn rhan o'r datrysiad, yr hyn sydd ei angen yw trawsnewidiad dwfn o'r system, er mwyn rhoi lle canolog o fewn addysg gynradd i fedru meithrin perthnasoedd cryf a galluogi plant i ymgysylltu'n weithredol gyda'r dysgu.

Martineau, W. and Bakopoulou, I. (2023) What children need to flourish: insights from a qualitative study of children's mental health and wellbeing in the pandemic, *Education* 3-13.

<https://doi.org/10.1080/03004279.2023.2186973>

**Iaith  
Gymraeg**      **Caffael geirfa trwy ddrama  
(Vocabulary Acquisition via  
Drama- VAD)**

*Mae'r canfyddiadau'n awgrymu fod y dull (VAD) yn addas i athrawon nad ydynt yn arbenigwyr ac yn ysgogi disgyblion mewn dull hwylus.*

Profir dull newydd o addysgu geirfa i ddysgwyr Cymraeg ail iaith o flwyddyn 5, drwy gyfrwng drama. Mae Caffael Geirfa trwy Ddrama (Vocabulary Acquisition via Drama - VAD) yn seiliedig ar egwyddorion drama-broses a dulliau dysgu iaith sy'n gyfathrebol ac wedi'u selio ar dasgau. Mae'n cynnwys tri cham: gweithgareddau cyn-drama, drama ac ôl-ddrama. Mae'r cynllun ymchwil yn astudio dau grŵp arbrofol ac un grŵp rheoli, ac yn cynnwys tri mesur o gaffael geirfa, sef: enwi lluniau, llunio brawddegau a thasgau byrfyfyrion. Mae'r canlyniadau'n ystyried data cyn-brawf ac ôl-brawf ac yn dangos effaith fuddiol VAD. Mae adran drafod y papur yn mynd i'r afael â chyfraniad posibl y dull hwn o addysgu geirfa ail iaith / iaith dramor.

Kalogirou, K., Beauchamp, G. and Whyte, S. (2019) Vocabulary Acquisition via Drama: Welsh as a second language in the primary school setting, *The Language Learning Journal*, 47(3), pp. 332-343, <https://doi.org/10.1080/09571736.2017.1283351>



**Fframwaith ymgysylltu  
â theuluoedd**

*'Mae ymgysylltu'n broses sy'n cynnwys set o berthnasau a champau gweithredu sy'n torri ar draws unigolion, amgylchiadau a digwyddiadau.'*

Mae'r papur hwn yn archwilio'r fframwaith Epstein (sy'n cael ei ddefnyddio'n eang ar hyn o bryd) ac yna'n cynnig fframwaith newydd i hyrwyddo ymgysylltiad rhieni mewn ysgolion. Bu newid sylweddol yn y ddealltwriaeth o werth ymgysylltiad rhieni â dysgu, ers i'r fframwaith Epstein ymddangos bron i 25 mlynedd yn ôl. Mae fframwaith Epstein yn cynnwys chwe math o gyfranogiad rhieni (Rhianta, Cyfathrebu, Gwirfoddoli, Dysgu yn y Cartref, Gwneud penderfyniadau a Chydweithio â'r gymuned). Nod y fframwaith newydd yw 'cadw'r teulu yn ganolog yn hytrach na'r ysgol yn ganolog'. Mae hefyd yn canolbwyntio ar berthnasoedd; wedi'i anelu at 'newid sylfaenol, nid arwynebol'; ac yn ffocysu ar 'amgylchedd dysgu'r cartref'. Mae hefyd yn symud o ymarfer i broses ac yn cefnogi 'gwerthuso effeithiol a blaengynllunio'. Awgrym i adeiladu arno yw'r fframwaith newydd, yn hytrach na bod yn offeryn statig, fel rhan o'r gwaith i wella ymgysylltiad rhieni â dysgu.

Goodall, J. (2022) A framework for family engagement: Going beyond the Epstein Framework, *Wales Journal of Education*, 24(2). <https://doi.org/10.16922/wje.24.2.5>



**Cydnabod a thaclo stereoteipiau  
rhywedd**

*'Mae'n amlwg bod canfyddiadau athrawon o rywedd yn dylanwadu ar eu hymarfer.'*

Archwiliwyd sut mae athrawon yn cynrychioli'r benywaidd a'r gwrywaidd er mwyn ystyried effaith bosib hyn ar sut mae disgyblion yn adeiladu eu dealltwriaeth o rywedd (gender constructions). Mewn 14 cyfweiliad, myfyriodd athrawon ar y profiad o adeiladu dealltwriaeth o rywedd yn eu bywydau personol a sut yr effeithiodd hyn ar eu hagweddau at rywedd wrth addysgu. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod athrawon yn cysylltu benywaidd-dra gyda gofal ac ymddangosiad corfforol. Mewn cyferbyniad, cysylltir gwrywod gyda chryfder corfforol, mwynhad o chwaraeon, a rôl y darparwr ariannol. Mae'r data'n awgrymu bod stereoteipiau rhywedd sy'n gyfyng ac yn ddeuaidd yn parhau, a gyda hynny, mae'r posibilrwydd yn parhau y gallai athrawon fod yn cyfyngu cyfleoedd eu disgyblion. Ar ôl myfyrio yn y modd hwn, ymddengys fod yr athrawon yn yr ymchwil yn fwy parod i addasu eu hymarfer er mwyn canolbwyntio mwy ar gydraddoldeb.

Sheehy, A. and Solvason, C. (2023) Teaching lads' lads and girly-girls: why recognising and tackling gender stereotypes still matters in education, *Education 3-13*. <https://doi.org/10.1080/03004279.2023.2224842>



## Camau cynnar gweithredu Cwricwlwm i Cymru

*'Mae profiadau yn ein helpu i gofio pethau. Mae ffeithiau yn haws i'w cofio os ydych chi'n gweld pethau yn y byd go iawn'. (Dysgwyr)*

Mae aelodau o'r tîm TAR wedi gweithio gydag eraill i archwilio profiadau cynnar ysgolion o gyflwyno Cwricwlwm i Gymru. Adroddwyd ar ganfyddiadau'r set gyntaf o gyfweiliadau gyda 64 o uwch arweinwyr yn gynharach yn y flwyddyn a gellir eu gweld [yma](#). Mae adroddiad Cam 2 yn cyflwyno canfyddiadau ymchwil ansoddol gyda 62 o uwch arweinwyr mewn ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion, i ddeall sut roedd y diwygiadau i drefniadau'r cwricwlwm ac asesu yn gweithio. Yn ogystal, mae [adroddiad Cam 2](#) yn amlinellu profiadau grwpiau o ddysgwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, o gyflwyno'r cwricwlwm.

## Adroddiad Cynhadledd Ymchwil TAR 2023

Cynhaliwyd ail Gynhadledd Ymchwil TAR ym mis Mehefin 2023; mae manylion llawn y gynhadledd ar gael [yma](#).

Roedd y gynhadledd yn cynnwys: anerchiad gan Rocio Cifuentes (Comisiynydd Plant Cymru); athrawon dan hyfforddiant a staff ysgolion partner yn rhannu canfyddiadau eu profiadau ymchwil; trafodaeth banel gyda Dr. Natalie Canning (y Brifysgol Agored), Daniel Davies (Ysgol Gynradd Clase) a Melanie Simmonds (Achub y Plant Cymru) a roddodd gipolwg gwerthfawr ar bwysigrwydd cynnal ymchwil plentyn-ganolog.

